



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Heddlu Police
**DYFED
POWYS**

13 Mehefin, 2019

Mark Collins

Prif Gwnstabl / Chief Constable

Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police Headquarters,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF.

- Ffôn/Tel: **01267 226308**
- E-bost/E-mail: **carol.price@dyfed-powys.pnn.police.uk**

Annwyl Gomisiynydd,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'r Adroddiad Archwiliad Peel Integredig a gyhoeddwyd yn dilyn yr asesiad AHGTAEM a gafodd Heddlu Dyfed-Powys yn ystod yr hydref llynedd, a hefyd er mwyn amlinellu'r newidiadau rydyn ni'n eu cyflwyno er mwyn parhau i wella.

Ynghyd â thîm uwch arweinwyr yr heddlu, rydyn ni'n croesawu'r craffu allanol a ddarperir gan AHGTAEM, ac yn awyddus i wella ein heffeithiolrwydd, ein heffeithlonrwydd, a'n cyfreithlondeb. Er mwyn i graffu allanol fod yn gyfreithlon a chyfredol, mae'n hollbwysig ei fod yn cynnig adlewyrchiad teg a chytbwys o sefyllfa'r heddlu.

Yn hytrach nag ymateb i bob pwynt y tynnwyd sylw ato yn yr adroddiad, amlinellaf yn gryno waith sy'n digwydd yn yr heddlu ar hyn o bryd ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a nodwyd yn yr asesiad diwethaf.

Byddwch chi'n ymwybodol mai'r ffordd yr ydym yn ymateb i gam-drin domestig yw fy mhrif flaenoriaeth eleni.

Rydyn ni wedi gweithio'n galed iawn i adnabod achos craidd ein problemau mewn perthynas â cham-drin domestig, ac rwyf eisoes wedi sefydlu grŵp Aur i edrych ar ein hymateb. Dros amser, wrth i systemau newid ac wrth i dechnoleg wella, daeth ein prosesau'n fwyfwy cymhleth. Weithiau, er waethaf bwriadau da, nid fu'r newidiadau hyn am y gorau.



Prif Gwnstabl Chief Constable Mark Collins, BSc

Pencadlys Heddlu, Blwch SB 99, Llangunnor, Sir Gâr. SA31 2PF

Police Headquarters, PO BOX 99, Llangunnor, Carmarthen. SA31 2PF

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n ymateb yn eich dewis iaith ac ni fydd oedi mewn perthynas ag unrhyw ohebiaeth drwy'r Gymraeg.

Dyfed-Powys Police welcomes correspondence in Welsh and in English, and we will ensure that we respond to any correspondence through the language of your choice. Corresponding via the medium of Welsh will not endure any delay.

O ganlyniad, ar 1 Ebrill eleni, lansiais ein desg fregusrwydd newydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru cyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i ddiodefwyr.

Mae cyflwyno'r Ddesg Fregusrwydd, a'r amser a gymerwyd i gyflawni hyn, yn dangos pa mor bwysig yw hi i mi gael ymatebion i gam-drin domestig a materion bregusrwydd ehangach yn iawn y tro cyntaf bob amser.

Ers ei lansio, mae'r ddesg wedi canolbwyntio'n llwyr ar gam-drin domestig, ond rwy'n awyddus iawn i sicrhau ei bod yn medru cwmpasu meysydd bregusrwydd eraill i'w chylch gorchwyl nes ymlaen, bob yn dipyn. Ers i'r ddesg fynd yn fyw, mae'r heddlu wedi gweld cynnydd sylweddol o ran ei gydymffurfiaeth â chyflwyno ffurflenni DASH adeg digwyddiadau domestig, a fydd yn sicrhau ein bod ni'n adnabod risg ac yn amddiffyn diodefwyr.

Ar hyn o bryd, mae dros 1,000 o swyddogion rheng flaen, SCCH, trinwyr galwadau, ac aelodau staff sy'n gysylltiedig â'r ymateb cyntaf i alwadau cam-drin domestig yn cymryd rhan mewn cwrs hyfforddi undydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar eu hymateb i gam-drin domestig. Mae'r heddlu wedi caffael yr hyfforddiant '*DA Matters*' fel rhan o'i ymrwymiad i adeiladu ar y ffordd mae'n trin diodefwyr a throseddwr cam-drin domestig.

Mewn perthynas ag atal trosedd, fel y byddwch eisoes yn ymwybodol, rydyn ni wedi cynnal adolygiad sylweddol yn ddiweddar o'n strwythur plismona bro, sy'n cynnwys adolygiad o'n fframwaith perfformiad plismona bro a'r model arolygu o fewn yr adran honno.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, rydyn ni wedi adnabod a mabwysiadu model plismona bro newydd sydd wedi'i adeiladu o gwmpas y canllawiau arfer gorau cenedlaethol. Credaf y bydd y model yn cyflwyno manteision sylweddol i effeithiolrwydd a gallu timoedd plismona bro, ac yn ein harfogi i gyflwyno gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n cymunedau.

Bydd y model newydd, a fydd yn mynd yn fyw ym mis Medi eleni, yn galluogi'n timoedd plismona bro i gael eu goruchwylio'n well a bod yn fwy arbenigol yn eu rôl, ac yn eu harfogi i fod yn fwy effeithiol o lawer o ran mabwysiadu'r model datrys problemau OSARA yr ydym wedi'i gyflwyno ar draws yr heddlu.

Mae llawer o waith hefyd wedi'i gwblhau mewn perthynas â'n Strwythur Llywodraethu Corfforaethol, sydd wedi arwain at strwythur newydd yn cael ei lansio'r wythnos hon. Yn ogystal â chwblhau'r darn o waith hwnnw, rydyn ni hefyd wrthi'n adolygu strwythur ein Hadran Gwella Parhaus a'n Tîm Galw er mwyn sicrhau bod galw'n medru hysbysu lleoli adnoddau a chynllunio busnes allweddol yn well.


O ganlyniad i'r Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol ac mewn perthynas ag Ymgysylltu Cyhoeddus, rydyn ni hefyd wedi sefydlu bwrdd newydd, sef y "Bwrdd Ymgysylltu â Chymunedau", a fydd yn adnabod ac yn creu cyfleoedd ar gyfer deall a mapio ein cysylltiad â'r gymuned.

Mewn perthynas â'r canfyddiad o annhegwch o fewn yr heddlu, rydyn ni wedi adolygu a diweddarau'r polisi tegwch yn y gwaith, ac mae'r sioeau teithiol a gynhaliwyd yn ddiweddar o

fewn yr heddlu wedi rhoi cyfle i ni amlinellu a chadarnhau pa mor bwysig yw tegwch a thryloywder i ni. Rydyn ni hefyd wedi adolygu ein fframweithiau perfformiad o fewn yr adran adnoddau dynol i'n galluogi i fonitro cwynion ac amseroldeb cwynion yn well.

Yn olaf, mewn perthynas â'n darpariaethau TG cyfredol, mae'r heddlu ar y cam caffael ar gyfer System Rheoli Cofnodion newydd. Nod y prosiect hwn fydd symleiddio a gwella ein prosesau TG cyfredol a galluogi swyddogion a staff i reoli gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn fwy effeithiol o lawer. Rwy'n hyderus y bydd y gwaith parhaus yn ein gosod mewn sefyllfa gref ac yn gwella ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau ledled Dyfed-Powys ymhellach.

Yn gywir,



Mark Collins

Prif Gwnstabl